## Uned 4

## Cynllunio Iechyd a Bioddiogelwch ar Fferm

## Tudalen Wybodaeth

Mae cynllunio iechyd ar fferm yn ymwneud â chreu amgylchedd fferm sy'n gwneud bywydau'r anifeiliaid yn iachach, ac felly'n fwy proffidiol.

**Y 3 prif gysyniad cynllunio iechyd yw:**

**1. Mesur**
Rhaid i'r ffermwr adnabod y problemau allweddol sy'n effeithio a dylanwadu ar berfformiad buches neu ddiadell y fferm. Dylid defnyddio cofnodion yr holl afiechydon neu gyflyrau i'w meincnodi yn erbyn safonau cenedlaethol e.e. cloffni mewn buches odro.

**2. Rheoli**
Rhaid i'r ffermwr flaenoriaethu cynllun gweithredu'r fferm i ddelio â'r problemau pwysicaf yn gyntaf. Nod y ffermwr yw rheoli'r problemau hyn yn effeithiol mewn ymgynghoriad â'r milfeddyg.

3. **Monitro**
Ar ôl gweithredu'r camau a nodwyd yn y cynlluniau iechyd, fe ddylid cynnal adolygiad i asesu os yw'r mesurau wedi bod yn effeithiol. Yn aml, rhaid newid cynlluniau wrth i broblemau gwahanol gael eu dileu.

**Cynllunio Iechyd Buches**

Dylai Cynllun Iechyd Buches gynnwys y canlynol:

- Ffrwythlondeb
- Ansawdd llaeth a mastitis
- Cloffni
- Clefydau heintus a pharasitig
- Maeth
- Lloi a stoc ifanc.

Mae'n syniad da cael system gofnodi weledol effeithlon ar gyfer y fuches laeth a ellir ei defnyddio i gynllunio ar gyfer y dyfodol e.e. siartiau cofnodi cloffni, siartiau nifer sy'n ysgothi, siartiau mastitis.

**Cynllunio Iechyd Diadell**

Dylid paratoi Cynllun Iechyd Anifeiliaid ysgrifenedig ar gyfer pob diadell. Dylai'r cynllun hwn gynnwys y cylch cynhyrchu blynyddol.

Dylai'r cynllun iechyd diadell gynnwys:

- Polisi brechiad ac amseru
- Rheoli parasitiaid mewnol ac allanol
- Polisi dethol ac amnewid
- Cloffni a gofal traed
- Maethiad a monitro sgôr cyflwr y corff
- Polisi ar brynu stoc newydd a bioddiogelwch
- Rheoli hyrddod.

.

Mae manteision cynllunio iechyd yn cynnwys:

i) Gwelliant mewn elw fferm a chynaladwyedd

ii) Gwell iechyd a lles stoc

iii) Perthynas ffermwr/milfeddyg sy'n canolbwyntio ar wella perfformiad.

**Bioddiogelwch**

Ystyr bioddiogelwch yw "bywyd diogel".

Gall clefydau fynd i mewn i ffermydd mewn amrywiaeth o ddulliau:

- Anifeiliaid, pobl a pheiriannau sy'n symud rhwng, ac o fewn, ffermydd
- Cyflwyno anifeiliaid newydd
- Cyswllt ag anifeiliaid cymydog
- Llygriad gan fermin ac adar gwyllt
- Anifeiliaid yn yfed dŵr o afonydd a nentydd llygredig.

Dylid cael trefn bioddiogelwch dda bob amser ar fferm. Fe fydd yn:

- Diogelu'r fuches neu ddiadell rhag clefydau
- Diogelu iechyd dynol
- Gwella effeithlonrwydd fferm trwy leihau ymledu clefydau
- Atal ymledu clefydau i anifeiliaid cymydog.

**Beth all ffermwyr eu gwneud er mwyn gwella bioddiogelwch?**

- Gwneud Cynllun Iechyd Buches/Diadell a glynu wrtho
- Cadw gyr/diadell yn gaeedig os yn bosibl
- Peidio lledaenu haint o amgylch eich fferm - bod â phwyntiau diheintio y tu allan i siediau
- Gwisgo menig wrth odro ac wyna
- Cadw'r ffensys terfyn mewn cyflwr da er mwyn atal y stoc rhag cymysgu
- Cadw anifeiliaid gwyllt a fermin i ffwrdd oddi wrth y storfeydd bwyd
- Sicrhau nad yw cathod y fferm yn medru mynd i mewn i'r cafnau bwyd neu siediau gwair/gwellt
- Gosod ffensys wrth ymyl afonydd neu nentydd i osgoi llygriad
- Cadw anifeiliaid i ffwrdd o gaeau sydd wedi eu taenu â slyri am 6 wythnos.

.